COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 15 TACHWEDD 2018, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd A Williams – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JE Lewis | RM Granville | LM Walters | AJ Williams |
| PA Davies | P Davies | TH Beedle | T Giffard |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

MJ Kearn

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Helen Smith | Prif Archwilydd Mewnol |
| Mary Williams | Rheolwr Grŵp - Phrif Gyfrifydd |
| Andrew Rees | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Lynne Berry | Rheolwr Grŵp Adfywio Tai a Chymuned |

Aelod Lleyg:

Josephine Williams

81. DATGANIADAU O FUDDIANT

Cyhoeddodd y Cynghorydd JE Lewis fod ganddo ddiddordeb personol yn agenda eitem 13 - Cymeradwyo Cofnodion Eithriedig am fod ei hŵyr yn mynychu Dechrau'n Deg. Tynnodd y Cynghorydd Lewis yn ôl o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno.

82. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 6 Medi 2018 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a manwl, yn amodol ar ddiwygio'r penderfyniad yng Nghofnod rhif. 74 sef "Bod y Pwyllgor wedi ystyried a nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Cynllun Archwilio Allanol" gan newid y geiriau i "Bod y Pwyllgor wedi cytuno i dderbyn y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Cynllun Archwilio Allanol".

83. ADRODDIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU (SAC) AR BERSBECTIF DEFNYDDWYR Y GWASANAETH O GRANTIAU CYFLEUSTERAU I'R ANABL

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Bersbectif Defnyddwyr y Gwasanaeth o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl o fewn yr awdurdod.

Adroddodd Martin Gibson a oedd yn cynrychioli Swyddfa Archwilio Cymru ei fod wedi cwblhau gwaith yn 2017-18 i ddeall persbectif defnyddwyr y gwasanaeth o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ym mhob Cyngor yng Nghymru. Nododd mai casgliad cyffredinol yr adroddiad oedd bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaethau yn hapus gyda'r gwasanaeth addasiadau tai, ond nad oedd y Cyngor yn sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl

i wella'r gwasanaeth a darparu gwerth am arian. Cafodd pum cynnig am welliant eu nodi yn dilyn yr adolygiad.

Holodd y Pwyllgor a yw defnyddwyr gwasanaethau yn cael cyfle i werthuso'r gwaith pan fo'r contractwr adeiladu yn dal i wneud addasiadau neu a allant gael y contractwr i ddychwelyd i'r eiddo'n gyflym i gywiro problemau a namau. Dywedodd cynrychiolydd SAC wrth y Pwyllgor fod gwerthusiad yn cael ei gynnal ar ôl cwblhau'r addasiadau. Nododd fod Gofal a Thrwsio Pen-y-bont ar Ogwr yn ymgymryd â dau draean o waith addasu a bod defnyddwyr gwasanaethau yn derbyn arolwg bodlonrwydd o'r addasiadau a wnaed, sy'n cael eu gwerthuso wedi hynny. Mae traean o ddefnyddwyr gwasanaethau nad ydynt yn defnyddio Gofal a Thrwsio ac mae SAC yn credu y dylai'r awdurdod gryfhau ei drefniadau gwerthuso. Gwnaeth y Rheolwr Grŵp Tai hysbysu'r Pwyllgor fod arolwg o ddefnyddwyr gwasanaethau nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau Gofal a Thrwsio yn cael ei gynnal. Mae'r mwyafrif o'r ymatebion a dderbyniwyd yn gadarnhaol ac mae'r addasiadau wedi gwneud gwahaniaeth i fywydau defnyddwyr gwasanaethau. Nododd fod y syrferwyr yn gwneud archwiliadau terfynol yn y cyfamser o'r addasiadau a wnaed gan gontractwyr a bod y syrferwyr yn rhan o'r Tîm Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG). Hysbysodd y Pwyllgor fod angen cryfhau'r trefniadau i werthuso addasiadau, lle mae defnyddwyr gwasanaethau yn comisiynu contractwyr annibynnol i ymgymryd â'r addasiadau.

Gofynnodd y Pwyllgor a yw defnyddwyr gwasanaethau yn ymwybodol o gost yr addasiadau. Gwnaeth y Rheolwr Grŵp Tai hysbysu'r Pwyllgor y bydd yr asiant yn darparu Rhestr Feintiau a fydd yn nodi cost yr addasiadau. Caiff ymgeiswyr brawf modd ac efallai bydd yn ofynnol iddynt wneud cyfraniad tuag at gost yr addasiadau. Bydd ymgeiswyr yn cael dewis o ran pa asiantau y dymunant ymgysylltu â nhw. Nododd fod Gofal a Thrwsio yn adnabyddus iawn ac wedi'i sefydlu er mwyn cyflawni'r gwaith addasu. Mae angen i'r defnyddwyr gwasanaethau sy'n defnyddio eu hasiantau eu hunain gael o leiaf dau ddyfynbris ar gyfer yr addasiadau.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at absenoldeb rhestr o gontractwyr cymeradwy a holodd a yw'r awdurdod yn cysylltu ag awdurdodau lleol cyfagos. Gwnaeth y Rheolwr Grŵp Tai hysbysu'r Pwyllgor fod yr awdurdod yn cysylltu â Chynghorau Caerdydd a Chastell-nedd Port Talbot i edrych ar arferion da er mwyn adolygu arferion yr awdurdod.

Ystyriodd y Pwyllgor y dylid creu rhestr o'r adeiladwyr proffesiynol sy'n gallu cyflawni gwaith addasu i leihau'r perygl o grefftwaith diffygiol. Nododd y Rheolwr Grŵp Tai eu bod yn edrych ar system fwy cadarn o fonitro contractwyr er mwyn lleihau'r perygl ac i weld a allai'r Adran weithio'n agos gydag Adran Landlord Corfforaethol y Cyngor.

Gofynnodd y Pwyllgor a yw'n ofynnol i gontractwyr weithio yn unol ag amserlen gytunedig. Dywedodd y Rheolwr Grŵp Tai wrth y Pwyllgor y bydd yn rhaid i gontractwyr raglennu gwaith, er efallai y bydd oedi anochel i waith sydd ar gychwyn. Nododd y byddai disgwyl i gontractwyr ddisgwyl cychwyn ar yr addasiadau a chwblhau'r gwaith o fewn blwyddyn i gymeradwyaeth y Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Gwneir taliadau dros dro i gontractwyr yn dibynnu ar werth y gwaith a rhaid bod pob tystysgrif cwblhau yn ei lle cyn gwneud y taliad terfynol.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at nifer y dyddiau a gymerwyd i ddarparu DFG, sydd ar gyfartaledd yn cymryd 300 diwrnod, a holodd a oedd hyn o ganlyniad i'r ffaith bod nifer o asiantaethau'n cael eu defnyddio. Nododd y Rheolwr Grŵp Tai fod angen symleiddio prosesau ac y bydd defnyddio asiantaeth yn ychwanegu haen i'r broses. Nododd hefyd mai un o rwystredigaethau'r swyddogion yw'r anghysondeb wrth gofnodi dangosyddion perfformiad gan awdurdodau lleol. Dywedodd cynrychiolydd SAC fod gan SAC bryderon ynghylch cofnodi'r dangosydd perfformiad ar gyfer y DFG, sydd heb ei archwilio.

Gwnaeth y Pwyllgor gais y dylai astudiaethau achos gael eu cynnal lle mae eiddo wedi manteisio ar y DFG. Nododd y Rheolwr Grŵp Tai y byddai astudiaethau achos yn cael eu cynnal a'u hadrodd i'r Pwyllgor er gwybodaeth.

Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai argymhellion SAC yn cael eu plethu i'r adolygiad o'r DFG. Nododd y Rheolwr Grŵp Tai fod y DFG yn un math o grant ac y byddai'r adolygiad yn edrych ar y mathau eraill o grantiau sydd ar gael ac yn archwilio dulliau gwell o weithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae rhai systemau eisoes ar waith gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol ond mae angen i'r systemau hynny gael eu hadolygu i greu gwell trefniadau gweithio gyda Therapyddion Galwedigaethol.

Holodd y Pwyllgor a fyddai SAC yn ailedrych ar yr adolygiad o'r DFG. Nododd cynrychiolydd SAC fod cynlluniau'n cael eu datblygu gyda'r Pennaeth Cyllid. Nododd y Pennaeth Cyllid y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i ddarparu cynllun gweithredu mewn perthynas â'r argymhellion yn SAC.

Cwestiynodd y Pwyllgor a yw cwynion a chanmoliaethau'n cael eu cofnodi. Nododd y Rheolwr Grŵp Tai y cedwir cofnod o bryderon ac ni fydd taliadau'n cael eu gwneud nes y bydd y gwaith wedi'i gwblhau'n foddhaol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor, nododd y Rheolwr Grŵp Tai y byddai'n hysbysu'r Pwyllgor o'r ffi a dalwyd i'r asiant i gefnogi'r defnyddiwr gwasanaeth drwy'r broses adeiladu.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi nodi Adroddiad SAC ar Bersbectif Defnyddwyr y Gwasanaeth o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

84. DIWEDDARIAD AR WAITH PERFFORMIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU 2018/19

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 yr adroddiad diweddaru ar Raglen Archwilio Perfformiad 2018-19 gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Cyflwynodd Samantha Clements a oedd yn cynrychioli Swyddfa Archwilio Cymru, ddiweddariad ar y rhaglen waith archwilio perfformiad yn Hydref 2018 a oedd yn amlinellu'r gwaith a wnaed yn y Cyngor gan neu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Nododd y byddai SAC yn adrodd ar Risgiau Digidol; yr Archwiliad o'r Cynllun Gwella 2018-19; Archwiliad Perfformiad; yr Adroddiad Gwella Blynyddol a Chynllunio a Thrawsnewid Ariannol. Byddai SAC yn archwilio egwyddorion datblygu cynaliadwy y Rhaglen Buddsoddi ym Mhorthcawl ac yn adolygu'r trefniadau y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith i ddarparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd ac effeithiolrwydd trefniadau diogelwch corfforaethol y bwriadwyd eu cwblhau yng ngwanwyn 2019. Bydd adroddiad ar ddefnyddio data'n effeithiol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor fis nesaf.

Nododd cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru fod llythyr wedi'i anfon at y Prif Weithredwr ynglŷn â pharatoadau'r Cyngor ar gyfer Brexit mewn perthynas â chyllid, y gweithlu a goblygiadau rheoliadol a dyletswyddau'r Cyngor i fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cwestiynodd y Pwyllgor y ffordd y mae astudiaethau'r llywodraeth leol yn cael eu dewis. Hysbysodd cynrychiolydd SAC y Pwyllgor y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud gwaith ar themâu ac yn dewis y rhai a fydd yn cael yr effaith fwyaf. Cwestiynodd y Pwyllgor y rhesymau dros ddewis awdurdodau lleol penodol yn astudiaethau'r llywodraeth leol. Gwnaeth cynrychiolydd SAC hysbysu'r Pwyllgor yr ystyrir gwybodaeth fewnol yn ogystal â chyngor rhanddeiliaid ac arferion da wrth ddethol awdurdodau lleol sy'n cael eu dewis ar gyfer astudiaethau llywodraeth leol. Dywedodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 fod y themâu ar draws llywodraeth leol yn debyg a bod

swyddogion perthnasol yn ystyried bod y canfyddiadau'n gymwys i'r Cyngor hwn eu mabwysiadu hyd yn oed pe na bai'r Cyngor hwn yn rhan o'r astudiaeth beilot ac y dylid cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar y canfyddiadau hynny.

PENDERFYNWYD: (1) Bod y Pwyllgor yn nodi diweddariad ar raglen waith archwilio perfformiad SAC ar gyfer Hydref 2018;

(2) Y dylid cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar ganfyddiadau astudiaethau'r llywodraeth leol.

85. ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL (AIR) SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU 2017-18 CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 yr Adroddiad Gwella Blynyddol (AIR) 2017-18 gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyflwynodd Samantha Clements a oedd yn cynrychioli Swyddfa Archwilio Cymru, adroddiad gwella blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol. Roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi ymgymryd â gwaith asesu gwelliannau ym mhob cyngor yn 2017-18 yn ogystal â gwaith mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nododd fod yr Adroddiad Gwella Blynyddol yn cynnwys crynodeb o'r astudiaethau cenedlaethol a wnaed gan SAC yn ystod y flwyddyn gydag argymhellion y mae angen i'r holl awdurdodau lleol gyfeirio atynt. Nododd hefyd, yn gyffredinol, fod y casgliad yn gadarnhaol a bod y Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus, ar sail y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheolyddion perthnasol. Credodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion Mesur y Llywodraeth Leol 2009 yn ystod 2018-19.

Adroddodd ar brif ganfyddiadau'r prosiectau canlynol yr ymgymerwyd â hwy a chyflwynodd y prif ganfyddiadau o dan bob prosiect:

- Adolygiad 'Craffu: Addas ar gyfer y Dyfodol?'
- Llythyr Archwiliad Blynyddol 2016-17
- Archwiliad o'r Cynllun Gwella Blynyddol
- Asesiad Blynyddol o'r Archwiliad Perfformiad

Adroddodd cynrychiolydd Swyddog Archwilio Cymru fod argymhellion adroddiad cenedlaethol wedi'u gwneud mewn perthynas â'r canlynol:

- Cynllunio Arbedion mewn Cynghorau yng Nghymru
- Caffael Cyhoeddus yng Nghymru
- Llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol - Crynodeb Cenedlaethol
- Adroddiadau Ariannol Llywodraeth Leol 2016-17
- Sut mae'r Llywodraeth Leol yn rheoli'r galw - Digartrefedd
- Addasiadau Tai
- Siarad fy iaith: Goresgyn rhwystrau iaith a chyfathrebu mewn gwasanaethau cyhoeddus
- Myfyrio ar y Flwyddyn Gyntaf: Sut y mae cyrff cyhoeddus wedi ymateb i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Comisiynu Strategol mewn perthynas â Gwasanaethau Llety i Oedolion ag Anableddau Dysgu

Mynegwyd pryder gan y Pwyllgor ynglŷn â sut y gallai'r swyddogaeth graffu fod yn fwy arloesol.

Holodd y Pwyllgor sut y gallai gael gwell dealltwriaeth o natur gritigol argymhellion yr adroddiad cenedlaethol a sut y byddai angen i'r Cyngor roi'r argymhellion ar waith yn y ffordd orau. Gwnaeth Martin Gibson o Swyddfa Archwilio Cymru hysbysu'r Pwyllgor na fydd angen i'r Cyngor hwn weithredu ar yr argymhellion cenedlaethol o bosibl.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi Adroddiad Gwella Blynyddol 2017-18 a gynhyrchwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

86. ADRODDIAD HANNER BLWYDDYN 2018-19 – RHEOLI TRYSORLYS

Cyflwynodd y Rheolwr Grŵp - y Prif Gyfrifydd adroddiad yn diweddaru'r Pwyllgor ar yr adolygiad canol blwyddyn a'r sefyllfa alldro hanner blwyddyn ar gyfer gweithgareddau rheoli'r trysorlys, Dangosyddion Darbodus a Rheoli Trysorlys ar gyfer 2018-19 a chyfeiriodd at gydymffurfiaeth â pholisïau ac arferion y Cyngor a oedd wedi'i adrodd i'r Cabinet a'r Cyngor.

Esboniodd y Rheolwr Grŵp - y Prif Gyfrifydd fod y Pwyllgor yn gyfrifol am sicrhau dull craffu effeithiol ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (TMS) a pholisïau. Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Canllawiau diwygiedig ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol yn Ebrill 2010 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Strategaeth Fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol ac roedd hyn wedi'i gynnwys yn y TMS.

Adroddodd y Rheolwr Grŵp - y Prif Gyfrifydd fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i anghenion deddfwriaethol a rheoliadol yn ystod hanner cyntaf 2018-19. Adroddwyd TMS 2018-19 a'r Alldro Hanner Blwyddyn i'r Cyngor ar 28 Chwefror a 24 Hydref 2018, yn y drefn honno. Cyflwynodd grynodeb o weithgareddau rheoli'r trysorlys ar gyfer hanner cyntaf 2018-19. Nid oedd y Cyngor wedi ymgymryd â benthyca hirdymor ers mis Mawrth 2012 ac nid oedd disgwyl y byddai angen unrhyw fenthyciad newydd hirdymor yn 2018-19, fodd bynnag at ddibenion llif arian, ymgymerir â benthyca tymor byr a chymerwyd benthyciad tymor byr o £3 miliwn a'i ad-dalu rhwng 1 Ebrill a 30 Medi. Roedd llifau arian ffafriol wedi darparu cronfeydd dros ben ar gyfer buddsoddi ac roedd y balans ar fuddsoddiadau ar 30 Medi 2018 yn £34.30 miliwn gyda chyfradd llog gyfartalog o 0.81% a oedd yn cyfateb i £126k.

Gwnaeth y Rheolwr Grŵp - y Prif Gyfrifydd hysbysu'r Pwyllgor fod y Cyngor wedi agor Cronfeydd Marchnad Arian (MMF) yn Awst 2017 ac wedi agor MMFs ychwanegol ym mis Medi 2018. Roedd hefyd wedi sefydlu porth ar y we (heb ddim cost i'r Cyngor) i symleiddio a chyflwyno effeithlonrwydd i'r holl agweddau ar MMF o gynnal cyfrifon i fasnachu ac adrodd. Hysbysodd y Pwyllgor hefyd am gyfradd elw gyfartalog y Cyngor ar fuddsoddiadau ac roedd cyfradd elw gyfartalog y Cyngor ar fuddsoddiadau yn fwy ffafriol na chyfartaledd cleientiaid Awdurdod Lleol Arlingclose yng Nghymru.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi gweithgareddau rheoli'r trysorlys ar gyfer 2018-19 ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2018 i 30 Medi 2018 a'r Dangosyddion Darbodus a Rheoli Trysorlys a ragamcanwyd ar gyfer 2018-19 a gafodd eu hadrodd i'r Cyngor ar 24 Hydref 2018.

87. ADRODDIAD ARCHWILIO DILYNOL AR REOLI GWYBODAETH

Adroddodd y Prif Archwilydd Mewnol ar yr archwiliad dilynol o'r adolygiad Rheoli Gwybodaeth a gynhaliwyd gan Bartneriaeth Archwilio'r De-orllewin ar ran Cydwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor, ac a ffurfiodd ran o Gynllun Archwilio 2017/18.

Hysbysodd y Pwyllgor fod Rheoli Gwybodaeth yn agwedd bwysig ar lywodraethu ar gyfer sefydliad. Bydd dull effeithiol o reoli gwybodaeth yn hwyluso a chefnogi gwaith effeithlon, gwneud penderfyniadau gwell, gwell gwasanaeth cwsmeriaid a thrawsnewid busnes i hwyluso'r ddarpariaeth o brif flaenoriaethau ac amcanion. Nododd fod yr argymhellion ar gyfer gwella wedi'u hadolygu gyda'r rheolwr perthnasol a chyflwynwyd ymateb gan reolwyr ar gyfer pob maes sydd angen sylw.

Adroddodd y Prif Archwilydd Mewnol fod y sicrwydd dros gynnal adolygiad dilynol o Reoli Gwybodaeth wedi'i adolygu fel Barn Sicrwydd Canolig ar y cyfan. Nododd, oherwydd y cyfnod rhwng cwblhau'r adolygiad dilynol a'i gyflwyno i'r Pwyllgor hwn, bod y meysydd gwasanaeth perthnasol wedi gweithredu nifer sylweddol o'r argymhellion a wnaed a bod angen cyflwyno gwybodaeth yn fwy prydlon i'r Pwyllgor hwn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor am wybodaeth am y Bwrdd Gweithredu a'r Bwrdd Llywodraethu GDPR, nododd y Prif Archwilydd Mewnol y byddai'n rhoi manylion am gyfansoddiad, cylch gorchwyl ac amlder cyfarfodydd y Byrddau hynny i'r Pwyllgor.

Holodd y Pwyllgor pryd fydd y Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a'r Cynllun Parhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb yn cael eu hadolygu a phwy fydd yn gyfrifol am y camau fydd yn codi. Gwnaeth y Prif Archwilydd Mewnol hysbysu'r Pwyllgor fod yr Archwiliad Mewnol wrthi'n terfynu adroddiad ar Barhad Busnes, a dylai'r canlyniad gael ei adrodd o fewn yr adroddiad alldro nesaf. Cedwir briff gwylio ar yr argymhellion hynny a geir o fewn yr adolygiad dilynol o Reoli Gwybodaeth, er, oherwydd amseroldeb yr adroddiad, roedd llawer o'r argymhellion wedi'u rhoi ar waith.

Ystyriodd y Pwyllgor y dylai swyddogion gael perchenogaeth dros yr argymhellion ac y dylid priodoli'r cyfrifoldeb i'r meysydd priodol ac nid i'r swyddogaeth archwilio. Cyfeiriodd y Pwyllgor at y gydymffurfiaeth â'r broses o ddiddymu'r Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus (PSN) yn raddol ond y byddent yn glynu ato hyd nes bod y Cyngor yn peidio â defnyddio gwasanaethau drwy'r PSN mwyach a bod y Rheolwr Grŵp yn fodlon bod y PSN yn cael ei ddisodli gan 'Cyber Essentials Plus'. Nododd y Prif Archwilydd Mewnol fod yr adran TGCh wedi gweithio ar yr argymhellion PSN ac yn ymwybodol o ddifrifoldeb yr argymhellion a'i bod yn darparu ar Cyber Essentials Plus. Ystyriodd y Pwyllgor fod angen i argymhellion gael eu gweithredu a'u hadrodd yn fwy rhagweithiol yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr Adolygiad Dilynol o Sefydliad Iach a'r camau sydd wedi'u cymryd eisoes i fynd i'r afael â'r meysydd hynny sydd angen sylw, ac y gofynnir i'r Rheolwr Grŵp TGCh fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor i gyflwyno adroddiad yn cyfeirio at y camau gweithredu mewn perthynas â Rheoli Gwybodaeth.

88. ARCHWILIAD MEWNOL – ADRODDIAD ALLDRO – MIS EBRILL I FIS MEDI 2018

Adroddodd y Prif Archwilydd Mewnol ar berfformiad yr Archwiliad Mewnol yn erbyn y Cynllun Archwilio ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill i fis Medi 2018. Esboniodd god Cynllun Archwilio Mewnol 2018/19 wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio i'w gymeradwyo ar 26 Ebrill 2018, a bod y Cynllun yn darparu ar gyfer cyfanswm o 1000 o ddiwrnodau cynhyrchiol o fis Ebrill 2018 i fis Mawrth 2019. Rhannwyd y diwrnodau yn adolygiadau Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 2 gyda'r bwriad o gwblhau'r cynllun cyfan erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Adroddodd y Prif Archwilydd Mewnol ar y cynnydd gwirioneddol yn erbyn Cynllun ar sail Risg 2018/19 a oedd yn nodi'r adolygiadau hynny nad oeddent wedi cael eu dyrannu eto yn y chwarteri priodol a'r adolygiadau hynny a gafodd eu dwyn ymlaen o chwarteri yn y

dyfodol. Gwnaeth y Prif Archwilydd Mewnol hysbysu’r Pwyllgor fod strwythur cyffredinol yr Adran yn parhau i fod yn seiliedig ar 14 swydd cyfwerth ag amser llawn a bod yr Adran yn parhau i fod â swyddi gwag. Nododd fod yr ymgyrch recriwtio ddiweddaraf wedi bod yn llwyddiannus iawn gan lenwi pob swydd wag archwilydd ac un swydd uwch. Dechreuodd yr aelodau newydd hyn o staff ar eu swyddi yn y gwasanaeth ym mis Awst 2018 ac roeddent yn ymsefydlu’n dda yn eu rolau newydd. Roedd gwasanaethau Partneriaeth Archwilio’r De-orllewin wedi eu comisiynu unwaith eto i fynd i'r afael yn rhannol â'r diffyg mewn diwrnodau sy’n angenrheidiol i gwblhau'r cynllun ac roedd hyn yn debygol o barhau trwy gydol y flwyddyn ariannol hon.

Adroddodd y Prif Archwilydd Mewnol ar fanylion yr adolygiadau hynny a oedd wedi'u cwblhau yn ystod y cyfnod a'u perfformiad. Yn ystod y cyfnod, dim ond un adolygiad a nododd wendidau sylweddol yn y system rheoli mewnol hyd yn hyn, a gafodd ei adrodd i'r Pwyllgor hwn ym mis Medi.

Gwnaeth y Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 hysbysu aelodau fod gwaith yn mynd rhagddo’n dda ar drefniadau gweithredu ar gyfer cydwasanaeth rhanbarthol. Roedd swydd y Pennaeth Cydwasanaethau wedi cael ei hysbysebu a byddai Cadeirydd y Pwyllgor hwn yn rhan o'r panel cyfweld. Gobeithiwyd adrodd ar ganlyniad y broses benodi yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Gofynnodd y Pwyllgor am gael gweld y Polisïau Gwrth-dwyll a Llwgrwobrwyo a Chwythu'r Chwiban. Gwnaeth y Prif Archwilydd Mewnol hysbysu’r Pwyllgor fod asesiad risg wedi'i gwblhau ar y polisi Gwrth-dwyll a Llwgrwobrwyo ac y byddai’n adrodd y polisi i'r Pwyllgor hwn.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Alldro yr Archwiliad Mewnol sy’n cwmpasu’r cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi 2018 i sicrhau bod pob agwedd ar eu swyddogaethau craidd yn cael ei adrodd yn ddigonol.

89. DIWEDDARIAD AR Y FLAENRAGLEN WAITH 2018/19

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol ddiweddariad ar Flaenraglen Waith 2018/19. Nododd, er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i sicrhau bod ystyriaeth briodol wedi'i rhoi gan y Pwyllgor i’r holl agweddau ar eu swyddogaethau craidd, y cafodd diweddariad ar y Flaenraglen Waith ei gyflwyno. Hysbysodd y Pwyllgor hefyd y dylid gofyn i'r Rheolwr Grŵp TGCh fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor fel rhan o'i ystyriaeth o'r adroddiad ar Reoli Gwybodaeth.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn cofnodi'r diweddariad ar Flaenraglen Waith 2018-19.

90. EITEMAU BRYS

Gofynnodd y Pwyllgor am gael copi caled o'r papur briffio i ategu’r arolwg CIPFA y gofynnwyd i aelodau ei gwblhau, a bod aelod lleyg y Pwyllgor yn derbyn copi o'r arolwg i'w gwblhau.

91. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: O dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, y dylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r eitem fusnes ganlynol gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraffau

12, 13 a 18 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007.

Yn dilyn gweithrediad prawf lles y cyhoedd wrth ystyried yr eitem hon, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, ei bod yn cael ei hystyried yn breifat, a gwaharddwyd y cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai'n golygu datgelu gwybodaeth iddynt sydd wedi'i heithrio o'r natur a nodwyd uchod.

92. CYMERADWYO COFNODION EITHRIEDIG

Daeth y cyfarfod i ben am 15:50